**EITEM AR YR AGENDA: 14**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16eg Mawrth 2009**

**GWEITHIO GYDA'R BYRDDAU GWASANAETHAU LLEOL**

**Adroddiad gan: Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Hysbysu'r Aelodau o gyfranogiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru tuag at y Byrddau Gwasanaethau Lleol ac i edrych am gefnogaeth wrth ddatblygu'r gwaith yma.

## Cefndir

2 Mae'r Byrddau Gwasanaethau Lleol wedi cael eu sefydlu i sicrhau y gall y tîm lleol sy'n arwain gwasanaethau cyhoeddus ymateb yn fwy effeithiol i ddinasyddion. Y nod yw gwella gwasanaethau lleol ar gyfer dinasyddion drwy ddod ag adnoddau ynghyd a gwaredu biwrocratiaeth neu rwystrau eraill.

3 Mae aelodaeth yn cynnwys arweinwyr allweddol o bob rhan o'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat a fydd yn cydweithio fel partneriaid cyfartal, gan gymryd cyfrifoldeb ar y cyd am gysylltu'r rhwydwaith cyfan o wasanaethau cyhoeddus o fewn eu hardal. Bydd gwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn seiliedig ar gymuned yr ardal, ac ar y sail hon bydd y Byrddau yn cymeradwyo ac yn rhoi ar waith gyfres o gamau cydweithredu y rhoddir blaenoriaeth iddynt ar gyfer cyflawni hyn. Gelwir y camau hyn yn Gytundebau Cyflenwi Lleol.

## Gwybodaeth

4 Er mwyn gallu hwyluso ein gwaith, penderfynwyd byddai Prif Swyddog yn cael ei aseinio i bob Bwrdd Gwasanaeth Lleol yng Ngogledd Cymru.

5 Mae'r Prif Swyddog Tân yn aelod o gyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir y Fflint ac mae ei gynrychiolydd enwebedig, Rheolwr Diogelwch Cymunedol, yn mynychu'r cyfarfodydd. Mae pynciau presennol yn cynnwys strategaeth gymunedol, prosiect lleihau carbon a'r cynllun gwirfoddoli.

6 Mae'r Dirprwy Brif Swyddog Tân wedi bod yn rhan o gymeradwyo'r strategaeth gymunedol ar gyfer Wrecsam ac yn arwain rheoli perfformiad.

7 Mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Simmons yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Ddinbych ac wedi cyfranogi mewn trafodaethau ar drefniadau cyflwyno lleol. Mae'r grŵp wedi cyflwyno ymateb i'r papur ymgynghori ar Gyflwyno GIG newydd i Gymru. Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Ddinbych wedi cael eu cydnabod yng nghylchlythyr Byrddau Gwasanaethau Lleol y Cynulliad am ei waith ar gyllidebu cyfranogol ac mae'r fenter "Teulu Ceri" wedi cael ei enwebu am Wobr Cronicl Llywodraeth Leol o dan y categori Iechyd a Lles.

8 Mae'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks wedi mynychu cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd ac wedi cyfranogi mewn trafodaethau ar nodau strategol gan gynnwys lleihau ôl troed carbon a darpariaeth iechyd.

9 Bydd y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Claydon yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy yn y dyfodol.

## Argymhelliad

10 Gofynnir i aelodau nodi'r wybodaeth uchod.